CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - MEDI 2015

DYDDIAD	Nos Fercher, 16 Medi
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhostryfan**

1.	**Croeso** Gan oedd y Cadeirydd nac Is-Gadeirydd yn bresennol, cadeirwyd y cyfarfod gan Gwilym V Thomas. Cafwyd croeso gan y Cadeirydd. Yn bresennol roedd Michelle Williams, Gwilym Ll Williams, Nerys Evans, Jason Hunt, Elin Evans, Elwyn Jones.
2.	**Ymddiheuriadau** Rhys Owen, Neal Williams, Tom Ellis
3.	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi
4.	**Cadarnhau cofnodion 15 Gorffenaf 2015** Derbyniwyd fel cofnod cywir
5.	**Materion i'w trafod:** **a) Tir ger Sain** Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn diweddariad gan Elfyn Williams, Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd. *"Cyfeiriaf at eich llythyr diweddar ynglŷn â'r mater uchod a dymunaf eich hysbysu bod yr Uned Gorfodaeth wedi anfon Hysbysiad Torri Rheolaeth Cynllunio at berchennog a deiliaid y safle fel rhan o ymchwiliad gan yr Uned Gorfodaeth i'r mater."* Bydd y Clerc yn parhau i ofyn am ddiweddariad misol hyd nes mae'r mater wedi ei ddatrys. **b) Loriau yn mynd drwy Rhosgadfan** Nododd y Clerc fod Alun Ffred hefyd wedi cysylltu gyda'r Cyngor ynglyn ar mater hwn a wedi derbyn ymateb tebyg, sef fod gofyn am dystiolaeth, rhifau cerbydau, amser ayb. Gofynnwyd a oes modd i Alun Ffred felly barhau i fynd ar ol y mater hwn a mae angen nodi fod gan y Cyngor gyfrifoldeb i fod yn monitro a cofnodi rhifau cerbydau ac amseroedd. **c) Pont Garreg Lwyd** Mae'n debyg y bydd y rheilffordd am wneud y gwaith rwan, felly ni fydd angen i'r Cyngor Cymuned ymyrryd. **d) Japanese knotweed – Glan y Wern a Llwybr Bryngwyn** Clerc wedi trefnu i chwistrellu llwybr Bryngwyn. O ran y tir ger Glan y Wern, nododd y clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn cynghori i gysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Clerc wedi cysylltu ond tydy CNC ddim yn ymyrryd mewn achosion o'r math hyn. Bydd angen i'r clerc gysylltu yn ol gyda'r Cyngor am gyngor. **e) Cae wrth Pen y Ceunant Rhostryfan (NE)** Gwrych dal heb ei dorri. Clerc wedi siarad gyda'r tenant a nodwyd fod contractwr ar fin torri'r gwrych. **f) Problemau Cwn – Mynwent a Llwybr Bryngwyn** Nododd y clerc fod problem baw ci yn y fynwent a hefyd fod adroddiad fod cwn ddim ar dennyn ar llwybr Bryngwyn. Cytunwyd fod angen arwyddion yn y ddau leoliad. **g) Sgwar Rhos isaf - (pant yn y ffordd) (GLIW)** Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd *"Rydym eisoes wedi ymgymryd ag archwiliad CCTV ar y system draenio yn yr ardal yma. Bu i*

ni ddarganfod diffygion ar rannau ohoni, gan gynnwys ar y Sgwâr. O ganlyniad, rydym yn bwriadu ymgymryd â thyllau archwiliadol arni cyn gynted a bo adnoddau'n caniatáu er mwyn penderfynu pa weithiau trwsio sy'n angen."

h) Tyllau yn y Lon or sgwar Rhos Isaf am Isfryn (GLlW)
Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd *"Fe fydd yr arolygwr yn asesu'r ffordd maes o law."*

i) Lon i fyny am Rhosgadfan am yr ysgol - chippings (GLlW)
Derbyniwyd cadarnhad gan Cyngor Gwynedd fod y gwaith wedi ei gwblhau erbyn hyn.

j) Torri gwair ar llwybr cae coch Rhostryfan (JH)
Wedi ei wneud.

k) Lon rhos isaf lawr am dinas lle mae gwaith BT (JH)
Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd *"Bu i'r Adran hon adrodd ar ddull gweithio'r contractwr i'r Gwasanaeth Gofal Stryd a Thrafnidiaeth (sef y gwasanaeth sy'n rheoli gweithiau stryd) cyn derbyn eich llythyr. Rwy'n deall eu bod wedi dilyn y mater i fyny gyda'r contractwr ar yr adeg."*

l) Rhosgadfan - Cattle grid mynd am Waunfawr (MW)
Cadarnhad gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd *"Fe fydd yr arolygwr yn asesu'r giât maes o law."*

m) Ty Hen, Rhosgadfan - culvert yn gorlifo (MW)
Cadarnhad gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd *"Fe fydd yr arolygwr yn asesu'r sefyllfa maes o law."*

n) Ffos yn pendraw lein Bryngwyn (Tyddyn gwydd) (EJ)
Elwyn Jones am drefnu cyfarfod safle gyda Wyn y Contractwr.

o) Beicwyr ddim i weld yn efnyddio'r llwybrau beicio (TE)
Clerc wedi adrodd wrth y swyddog priodol yn y Cyngor ond yn anhebygol gall y Cyngor wneud unrhywbeth gan mai dewis personol y beiciwr ydy hyn.

p) Erthygl yn yr Herald yn cyfeirio at 'Devil's Kitchen' (GVT).
Clerc wedi ebostio yr Herald yn gofyn iddynt gyfeiro at yr angen i ddefnyddio yr enw Cymreig yn ogystal.

q) Caer gors, Rhosgadfan – (GVT)
Clerc wedi gyrru llythyr at y ganolfan ei hun ond dim ymateb. Wedi gyrru llythyr pellach at Cadw ac yn aros am ymateb.

r) Llwybr Pen y muriau – angen ei dorri (GVT).
Wedi ei wneud.

s) Arwyddion solar rhosgadfan a ffrwd cae du ddim i weld yn gweithio (NW)
Ymateb Adran Priffyrdd *"Nid yr Adran hon sy'n gyfrifol am y rhain. O ganlyniad, rwyf wedi anfon eich sylwadau i'r Gwasanaeth Gofal Stryd a Thrafnidiaeth. Diau y byddent yn cysylltu â chi yn fuan gydag ateb."*

t) Sedd wag Rhosgadfan
Les Williams, Rhosgadfan wedi datgan diddordeb. Nododd y Clerc fod Bryn

	Hughes, Rhostryfan hefyd wedi dangos diddordeb. Gan fod Les Williams o Rhosgadfan, cytunwyd y byddai raid roi'r cynnig cyntaf iddo fo ond pe bai Bryn Hughes yn parhau eisiau cael ei ystyried y byddai'r Cyngor yn gwadd y ddau draw am gyfweliad anffurfiol. t) **Sbwriel ar *Lon Wen (Rhosgadfan at Waunfawr)*.** Yr ymateb canlynol wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd *"Rwyf wedi anfon eich sylwadau am y sbwriel a'ch cais am arwyddion i Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Diau y bydd yn cysylltu â chi maes o law ynghylch y sefyllfa"*
6.	**Derbyn Adroddiadau** **Llwybr Waun Bant** Nododd y Clerc fod cais i gofrestru'r llwybr fel un swyddogol wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ond bod eisiau llenwi ffurflenni gan drigolion sydd yn cerdded y llwybr yn rheolaidd fel tystiolaeth. Nododd NE mai un o'r amodau cynllunio ar y cais i greu maes carafannau oedd ei fod yn cadw'r llwybr ar agor. Mae angen ail ymweld ar cais, mae gan yr Adran Gynllunio gyfrifoldeb felly i fonitro nad ydy'r perchenog yn cau'r llwybr. Cytunwyd ei fod dal angen cofrestru'r llwybr a fod yr amod cynllunio yn dystiolaeth pellach or angen i'w gofrestru.
7.	**Is-bwyllgorau** Dim i'w nodi
8.	**Adroddiad Ariannol** **<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 14 Medi 2015</u>** **<u>Cyfrif Cadw</u>** Balans a ddygwyd ymlaen: 13,229.12 Praesept – Awst 9,100.00 **Balans ar derfyn busnes 14 Medi 2015: 22,329.12** **<u>Cyfrif Siec</u>** Balans a ddygwyd ymlaen: **4,495.57** **Ers cyfarfod 15 Gorffenaf 2015, talwyd i mewn:** 1 Claddiad – Gwilym Jones & Son 685.00 **Ers cyfarfod 15 Gorfennaf 2015, talwyd allan:** 101312 Cyflog Clerc - Gorff 424.40 101313 Cyflog Clerc - Awst 424.40 101314 PAYE 95.60 101315 PAYE 95.60 101308 Canolfan Llanwnda 20.00 **Balans ar derfyn busnes 14 Medi 2015: 4120.57** **<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 14 Medi 2015:</u>** Cyflog Clerc Medi 424.40 Cyllid y Wlad Medi 95.60 **Cyfanswm 520.00**
9.	**Materion Cynllunio**

	Blythe Garage – codi estyniad **Post office cottage –** dymchweld garej a codi 2 dy newydd yn ei le. Dim sylwadau i'w cynnig
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau**
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **EE –** Ceir yn gyrru lawr y lon o Rhostryfan i lawr am y junction Ffrwd Cae Du yn beryglus, damwain newydd fod. Oes rhywbeth gall y Cyngor wneud? Oes modd checio os yw'r arwydd ffordd yn gweithio ac ystyried gosod arwyddion pellach neu "crash barrier"? **NE–** Hysbysfwrdd Sgwar – hawdd rhoi gwybodaeth ynddo rwan cyn belled fod dim car wedi parcio yna, ydy'r Cyngor yn gallu rhoi llinellau melyn? **GVT -** Parc yn Rhosgadfan – llwybr i fod yn rhedeg trwyddo, angen ei dorri. Giat wrth ymyl afon hen, agor at y pistyll. Pentref Rhosgadfan sydd biau'r tir ond Pwyllgor y cae chwarae sy'n gyfrifol a bydd angen canaiatad ganddyn nhw. Ni fyddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb, dim ond ei dorri. Angen pris gan Wyn. **GVT –** Angen torri coeden dros ffordd i ty Brynaber, Rhosgadfan, mae'n goruchwyddio'r lamp i gyd. Mae'r polyn yn yr ardd a mae coed wedi tyfu dros y golau. Angen newid am lamp ar bracket hirach neu torri'r goeden. **NE –** Lamp wrth Tan y Waun, Rhostryfan - Scottish Power wedi bod yn newid y polyn wythnos diwethaf. Roedd y polyn yng nghanol y wal ond tydy nhw heb roi y wal yn ol, dim ond wedi taflu cerrig yn ol yn fler. **Dyddiad: 21 Hydref 2015** **Lleoliad: Canolfan Llanwnda**